GWEITHREDU DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016:

CYNNYDD A HER ADRODDIAD RCN CYMRU TACHWEDD 2019

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

Crynodeb Gweithredol

Am beth y mae'r adroddiad hwn?

- Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Rydym wedi archwilio adroddiadau a gyhoeddwyd gan Fyrddau Iechyd yn 2018 a 2019 i ddod o hyd i dystiolaeth o sut y mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn cael ei gweithredu ledled Cymru ac asesu cynnydd.
- Fe wnaethom ysgrifennu hefyd i Fyrddau Iechyd ym mis Mawrth 2018 ac eto ym mis Mawrth 2019 yn gofyn iddynt roi gwybod inni ba gynnydd yr oeddent yn ei wneud. Nodir ymatebion y Byrddau Iechyd yn yr adroddiadau.
- Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn:
  - Rhoi trosolwg o'r cynnydd o ran y gweithredu
  - Adnabod ac annog cynnydd da
  - Dangos yr hyn y mae angen ei wneud i weithredu'r Ddeddf yn gyson ac yn effeithiol i warchod gofal cleifion

Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

- Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, yn adran 25A, yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru, bod yn rhaid iddynt ddarparu "digon o nyrsys er mwyn rhoi amser i nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif" pan fyddant yn darparu gwasanaethau nyrsio.
- Yn adran 25B o'r Ddeddf, mewn wardiau meddygol acíwt i oedolion a llawfeddygol mae'n rhaid cyfrifo'r lefel "digon o nyrsys" yn ôl dull penodol ac mae'n rhaid gwneud trefniadau i roi gwybod i gleifion am lefel y staff nyrsio.
- Mae adran 25E yn nodi bod yn rhaid i Fyrddau Iechyd gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd sy'n nodi'n glir y camau a gymerwyd i ufuddhau i'r Ddeddf, unrhyw dorri'r Ddeddf ac unrhyw gamau lliniaru. Disgwylir y gyfres gyntaf o adroddiadau swyddogol ym mis Ebrill 2021.

Pam mae hyn mor bwysig?

- Bydd y gyfraith hon yn gwarchod cleifion. Mae ymchwil wedi dangos bod lefelau staff nyrsio gwael wedi arwain at gynnydd o hyd at 26% i farwoldeb o'i gymharu â wardiau lle mae lefelau staff gwell.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod lefelau diogel ac effeithiol o staff nyrsio yn lleihau nifer yr ailddderbyniadau, cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gwallau meddyginiaethau, cwympiadau a briwiau pwyso.
- Mae lefelau diogel ac effeithiol o staff nyrsio yn arwain at well hydradu a maeth i gleifion a gwell cyfathrebu â chleifion.
- Yn ogystal â niferoedd, mae hefyd yn bwysig cael y cymysgedd cywir o sgiliau ymhlith staff nyrsio. Mae angen Nyrsys Cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd mewn tîm sy'n gweithio'n effeithiol. Mae angen i Brif Nyrsys/Rheolwyr Ward fod â swyddogaeth oruchwylio i ddarparu goruchwyliaeth glinigol a chyflawni cyfrifoldebau rheoli megis trefnu'r rota, gwerthuso, cyllideb y ward ac addysg barhaus i staff y ward. Mae pob cynnydd o 10% i nifer y nyrsys â gradd mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% i farwoldeb cleifion.
- Ymgyrchodd y Coleg Nyrsio Brenhinol dros y Ddeddf hon er mwyn gwarchod gofal cleifion.

Beth arall y mae angen ei wneud?

- Mae pob Adroddiad Bwrdd Iechyd yn cynnwys cwestiynau allweddol yr ydym wedi'u nodi y mae angen i'r Prif Weithredwr eu hateb. Bydd y Coleg Nyrsio Brenhinol yn cyflwyno'r rhain i'r Prif Weithredwyr yn uniongyrchol. Rydym yn gobeithio y byddwch yn ein helpu i wella gofal cleifion trwy ateb y cwestiynau hyn hefyd.
- Rydym wedi rhoi trosolwg o'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi gweithrediad y Ddeddf hyd yn hyn ac wedi gwneud argymhellion o ran yr hyn y mae angen ei wneud nesaf. Rydym yn gobeithio y byddwch yn ein helpu i wella gofal cleifion trwy annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i'r camau hyn.
- Nid oes angen lefelau diogel o staff diogel mewn rhai wardiau ysbyty yn unig; mae eu hangen ym mhob sefydliad iechyd i sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dylid ymestyn adran 25B o'r Ddeddf (y cyfrifiad penodol ar gyfer nyrsio diogel) i gynnwys wardiau cleifion mewnol i blant, wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl, nyrsio cymunedol a chartrefi gofal.

MAE'N RHAID I LYWODRAETH CYMRU YMESTYN Y DDEDDF I SEFYDLIADAU GOFAL ERAILL, GAN GYNNWYS Y RHAI I BLANT, IECHYD MEDDWL, Y RHAI CYMUNEDOL A CHARTREFI GOFAL

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	**Ii**
Llywodraeth Cymru	**1**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	**5**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	**9**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	**13**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	**17**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	**21**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	**27**
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	**31**

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

@RCNWales RCNWales

Llywodraeth Cymru

Argymhellion o ran camau cenedlaethol i wella gweithrediad effeithiol y Ddeddf

1. Dylai Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan roi darlun cenedlaethol o statws goruchwylio rheolwyr ward ym mhob Bwrdd Iechyd. Dylid codi ymwybyddiaeth Prif Weithredwyr o'r dystiolaeth o fudd cyflawni'r gofyniad hwn yn y Ddeddf o ran gofal cleifion ac effeithlonrwydd.
2. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiad llwybr TG cenedlaethol i gefnogi cydymffurfiaeth gyson â gofynion adrodd data y Ddeddf.
3. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i annog nyrsys yn y rheng flaen a gweithwyr cymorth gofal iechyd i godi pryderon ynglŷn â staffio diogel.
4. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n benodol cydymffurfiaeth â'r Ddeddf yn benodol a chefnogi hyn mewn Byrddau Iechyd â statws uwchraddedig.
5. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddu ar strategaeth cadw staff nyrsio yn rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Dylai AaGIC ddarparu cymorth cenedlaethol a chanllawiau i ddatblygu hyn.
6. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r brand Hyfforddi Gweithio Byw yn asiantaeth genedlaethol i gefnogi trefniadau recriwtio nyrsys rhyngwladol.
7. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau trwy AaGIC bod cynnydd yn parhau o ran lefelau comisiynu addysg gan gynnwys datblygu dull cenedlaethol o gynnig prentisiaethau nyrsio.
8. Mae angen i Lywodraeth Cymru, trwy weithio mewn partneriaeth ag Undebau Llafur, nodi sut y bydd y GIG yng Nghymru yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i weithio'n hyblyg yn rhan o strategaeth genedlaethol i gadw staff nyrsio.
9. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu ymchwil i gydymffurfiaeth â'r Ddeddf ac effaith hynny.

Llywodraeth Cymru

Ym mis Mawrth 2016 cafodd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ym mis Tachwedd 2017, ac ym mis Chwefror 2018 cyhoeddodd y Canllawiau Gweithredol i'r GIG. Yn lechyd Cyhoeddus Cymru, yn rhan o'r fenter 1000 o Fywydau a Mwy, sefydlwyd Rhaglen Staff Nyrsio Genedlaethol i gydlynu gweithrediad y Ddeddf, y rhaglen ymestyn ac ymgyrch gyfathrebu.

Defnyddiwyd dull 'unwaith i Gymru' o ddatblygu'r broses o gydymffurfio â'r Ddeddf. Bu'r dull hwn yn gadarnhaol iawn ac mae wedi sicrhau cysondeb prosesau ledled Cymru. Mae hefyd wedi sicrhau bod y broses o gydymffurfio wedi'i symleiddio ar gyfer y Byrddau a gwelwyd cynnydd cynt o ganlyniad i hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth fanwl am gynnydd pob Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, wrth lunio'r adroddiad y mae wedi dod i'r amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd rhai camau i gefnogi'r gweithredu.

Mae'r gweithlu nyrsio yng Nghymru yn wynebu argyfwng cenedlaethol. Mae'r niferoedd uchel o swyddi gwag yn ein GIG (o leiaf rhyw 1600 yn ôl amcangyfrif RCN) wedi'u hategu gan brinder mawr yn y sector cartrefi gofal a'r colledion sylweddol posibl o ganlyniad i ymddeoliad yn y 5 i 10 mlynedd nesaf. Mae camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio. Un yw parhau i fuddsoddi mewn addysg nyrsio a datblygu dull prentisiaeth genedlaethol o gyflawni'r radd. Cam arall yw datblygu'r brand Hyfforddi Gweithio Byw yn asiantaeth genedlaethol i gefnogi trefniadau recriwtio nyrsys rhyngwladol yn hytrach na gadael y broses gymhleth hon i fyrddau iechyd unigol gan fod angen llawer iawn o arbenigedd i allu gwneud.

Fodd bynnag, efallai mai'r cam mwyaf sylweddol y gallai Llywodraeth Cymru ei gymryd fyddai datblygu dull cenedlaethol o gadw staff nyrsio. Mae mwy o nyrsys yn gadael y GIG nag sy'n ymuno. Mae angen arafu'r gyfradd hon yn sylweddol i warchod gofal cleifion a defnyddio cyllid cyhoeddus yn effeithiol – gwariodd GIG Cymru £63.8 miliwn ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd o 24% ar y llynedd. Mae hyn gyfwerth â chyflog 2,635 o nyrsys newydd gymhwyso.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar wella cyfraddau cadw staff nyrsio trwy sicrhau lefelau diogel o staff nyrsio, y gallu i gael gafael ar ddatblygiad proffesiynol, dulliau o gefnogi llesiant, cyfraddau cyflog da a chyfleoedd gweithio'n hyblyg. Dylid hyrwyddo'r Ddeddf ei hun mewn deunyddiau Hyfforddi Gweithio Byw

i ddathlu bod Cymru yn wlad sy'n gwerthfawrogi nyrsys a gofal cleifion. Mae llawer o nyrsys yng Nghymru yn gyfrifol am blant ifanc a rhieni hŷn ac yn dewis gweithio i gyflogwr lle maent yn gallu rheoli eu horiau gwaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd y GIG yng Nghymru yn cynyddu'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg yn rhan o strategaeth genedlaethol i gadw nyrsys.

Mae'r camau cenedlaethol hyn i wella cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio yn angenrheidiol i sicrhau y caiff y Ddeddf ei gweithredu'n llwyddiannus a bod pobl yn gweld y buddion o ran gofal cleifion o ganlyniad i hynny. Felly rydym wedi darparu adroddiad Niferoedd Nyrsio 2019 RCN Cymru i gyd-fynd â'r adroddiad hwn, i sicrhau y gellir deall y darlun llawn o'r camau sydd eu hangen.

Wrth archwilio sut y mae byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu mae meysydd amlwg o anhawster wedi'u hamlygu a gallai camau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru gynorthwyo â hyn.

Dylai Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan ddarparu darlun cenedlaethol o statws goruchwylio rheolwyr wardiau ym mhob Bwrdd Iechyd. Dylid codi ymwybyddiaeth Prif Weithredwyr o'r dystiolaeth o fudd cyflawni'r gofyniad hwn o'r Ddeddf o ran gofal cleifion ac effeithlonrwydd. Mae swydd y prif nyrs/rheolwr ward yn un hollbwysig. Maent yn darparu goruchwyliaeth glinigol i'r nyrsys cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn eu tîm. Dylent fod yn gyfrifol am drefnu'r rota, am werthuso, am ddarparu addysg broffesiynol, am arwain ac am ethos y tîm. Mae'n amhosibl dychmygu y gellid cyflawni'r swydd hon yn ychwanegol at gyfrifoldebau nyrsio rheng flaen amser llawn.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu llwybr TG cenedlaethol i gefnogi cydymffurfiaeth gyson â gofynion adrodd data y Ddeddf. Mae llawer o'r Byrddau Iechyd yn nodi mai dim ond y staff a ddyrannwyd gaiff ei gofnodi yn eu systemau presennol, nid y staff sydd ar ddyletswydd mewn gwirionedd (e.e. newidiadau oherwydd salwch). Mae rhai Byrddau Iechyd yn nodi bod meddalwedd wedi'i chyflwyno i allu cofnodi data amser real, ond mae eraill yn cyfeirio at gofnodion papur wythnosol neu fisol ar gyfer yr wybodaeth bwysig hon.

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i annog nyrsys y rheng flaen a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i godi pryderon ynglŷn â staffio diogel. Mae Aelodau RCN yn adrodd i ni eu bod yn anfodlon codi pryderon oherwydd bod y broses yn cymryd llawer o amser, ni cheir unrhyw adborth neu mae'r adborth yn negyddol wrth i staff rheoli ofyn i staff y rheng flaen beidio ag adrodd a mynd ati i'w atal.

Llywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n benodol a chefnogi cydymffurfiaeth â'r Ddeddf mewn Byrddau Iechyd â statws uwchraddedig. Mae cydymffurfio â'r Ddeddf yn dangos cyfrifoldeb corfforaethol am ansawdd gofal cleifion. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i dalu sylw hirdymor i faterion strategol trefniadau recriwtio a chadw nyrsys. Gall archwilio cydymffurfiaeth â'r Ddeddf ddangos aeddfedrwydd neu fel arall ddangos sicrwydd ansawdd, proses, llywodraethu, cynllunio strategol a gweithredol. Hefyd, pan fo Llywodraeth Cymru yn gwybod bod gwendidau yn y meysydd, byddai'n synhwyrol darparu cymorth ychwanegol o ran cydymffurfio â'r Ddeddf i sicrhau nad yw gofal a diogelwch cleifion mewn perygl.

I gloi, mae RCN Cymru yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried buddsoddi mewn rhagor o waith ymchwil i effaith y Ddeddf. Roedd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 y cyntaf o'i math yn y DU ac Ewrop. Gallai ymchwil archwilio dulliau effeithiol o gefnogi, cydymffurfiaeth, effaith ar broses cynllunio'r gweithlu, ac yn bwysicaf oll yr effaith ar ansawdd a chanlyniadau gofal cleifion. Byddai'n helpu i ddatblygu ymyraethau effeithiol a brofwyd i warchod gofal cleifion a gwella enw da byd-eang Cymru o ran polisi iechyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cwestiynau i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd

1. Beth yw lefel staff nyrsio presennol Uned Cyflenwi Gwasanaethau Treforys? A wnaed rhagor o fuddsoddiad ers mis Mehefin 2018?
2. Faint o swyddi gwag sydd i nyrsys cofrestredig yn y Bwrdd?
3. A oes gennych strategaeth cadw neu recriwtio staff nyrsio?
4. Sut y caiff pryderon staff ynglŷn â lefelau staff isel eu dwyn i'r Bwrdd?
5. Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i'ch helpu i weithredu'r Ddeddf?

to help you implement the Act?

Cwestiynau i Lywodraeth Cymru

1. Sut y mae statws 'ymyrraeth darged' y Bwrdd Iechyd hwn yn monitro cydymffurfiaeth â'r Ddeddf ac yn cefnogi'r gweithredu?

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Defnyddir y teitl "Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg" yn gyson yn yr adroddiad hwn oherwydd y cyfnod a archwiliwyd ac i osgoi unrhyw ddryswch.

Cynnydd o ran Gweithredu

Ym mis Mawrth 2018 dywedwyd wrth y Bwrdd am gamau sy'n cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf, gan gynnwys sefydlu cyfarfod misol i oruchwylio cynnydd, adolygiad o'r prosesau cynllunio gweithlu ac adolygiad ffurfiol ym mhob Uned Cyflenwi Gwasanaethau acíwt i gyfrifo ac adrodd gofynion staff nyrsio.

Aseswyd bod 32 o wardiau meddygol acíwt i oedolion a llawfeddygol yn berthnasol i Adran 25B. Cyflwynwyd proses drylwyr i gymeradwyo data er mwyn sicrhau cywirdeb y data aciwtedd a gyhoeddir bob 6 mis. Nodwyd bod gan y Bwrdd Iechyd ddwy system Amserlennu Electronig ar waith (Kronos ac Allocate). Gan nad yw'r system Kronos yn cefnogi'r angen i fonitro cydymffurfiaeth amserlennu, argymhellwyd y dylid mabwysiadu'r system Allocate yn llawn.

Ym mis Mehefin 2018 cadarnhaodd papur y Bwrdd ar staff nyrsio fod 38 o wardiau meddygol acíwt i oedolion a llawfeddygol y Bwrdd Iechyd yn berthnasol i Adran 25B. Mae'n nodi bod statws goruchwylio i Reolwyr Ward wedi'i gyflawni'n rhannol yn unig mewn nifer o wardiau. Byddai hyn yn golygu llai o amser neu ddim amser o gwbl ar gyfer cyfrifoldebau goruchwylio clinigol a rheoli. Mae hefyd yn cadarnhau bod niferoedd nyrsio yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio 23% yn unig o'r nifer ychwanegol wrth gefn, a bod hyn yn annigonol i ystyried yr angen am wyliau blynyddol, hyfforddiant statudol a gorfodol a hyfforddiant ôl-gofrestru ar gyfer sgiliau clinigol uwch. Y dull gofynnol yw defnyddio 26.9% o'r nifer ychwanegol wrth gefn at y dibenion hyn.

Mae'r papur yn cadarnhau bod buddsoddiad wedi'i ddarparu yn rhan o broses cyllideb 18/19 i sicrhau nifer ychwanegol wrth gefn o 26.9% ar gyfer cynllunio'r gweithlu a bod swyddi rheolwyr wardiau yn swydd oruchwylio lwyr erbyn hyn.

Ym mis Mehefin 2018 mae'r papur yn datgan ar sail y cyfrifiadau a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull triongli gofynnol, y bydd angen cynnydd o 52.26 o nyrsys cofrestredig a 135.61 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd am gost o £5.444 miliwn yn y 38 o wardiau meddygol acíwt a llawfeddygol cynwysedig yn y Bwrdd Iechyd. Nodwyd mai Uned Cyflenwi Gwasanaethau Treforys sydd â'r risg uchaf o ddiffyg staff, sy'n cyd-fynd â data triongli risg uchel arall megis achosion a dangosyddion ansawdd.

Mae'r papur yn cyflwyno 3 opsiwn i'r Bwrdd Iechyd: cyllido'r cynnydd yn llawn, gwneud dim, neu ddefnyddio dull gweithredu wedi'i flaenoriaethu lle mae'r risgiau wedi'u hasesu. Cytunodd y Bwrdd â'r trydydd dull. Mae'r Bwrdd yn defnyddio'i broses adolygu ei hun i nodi wardiau problemus lle caiff buddsoddiad ei flaenoriaethu.

Dyma'r dull a gynigwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf ym mis Tachwedd 2018. Wedi hynny, cafodd Bwrdd Iechyd Cwm Taf ei uwchraddio i 'fonitro uwch' gan Lywodraeth Cymru yn sgil pryderon a amlygwyd ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd PABM dan 'ymyrraeth darged' gan Lywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2019 cafodd y Bwrdd bapur diweddaru arall. Nododd hyn fod 39 o wardiau wedi'u hasesu eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Amlinellodd y buddsoddiad canlynol o nyrsys cofrestredig (RN) a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) ychwanegol:

Ysbyty	Cynnydd o RN WTE	Cynnydd o HCSW WTE	Pryd y gwnaed y buddsoddiad hwn
Treforys	8.34 (wedi'u llenwi drwy asiantaeth /cronfa)	59.7 17	Medi 2018 Ebrill 2019
Tywysoges Cymru	0	11.6 3.9	Medi 2018 Ebrill 2019
Singleton	13.75 (wedi'u llenwi drwy asiantaeth /cronfa)	27.7 2.6	Medi 2018 Ebrill 2019
Castell-nedd Port Talbot	2.7 (recriwtio ar y gweill)	1.1	Ebrill 2019
CYFANSWM	**24.79**	**123.6**	**Erbyn Ebrill 2019**

Mae Papur y Bwrdd ym mis Mai 2019 ar y Ddeddf yn cadarnhau bod cyfanswm y cynnydd yn nifer y staff a fwriadwyd ar gyfer mis Ebrill 2019 wedi'i wneud ac mae'n datgan bod y wardiau sy'n berthnasol i adran 25b o'r Ddeddf yn cydymffurfio'n llwyr bellach. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran y system amserlennu electronig wrth i'r system newydd (Allocate) gael ei chyflwyno'n llwyddiannus ar draws y Bwrdd Iechyd sy'n cynnwys y fantais o allu darparu data gweithredol amser real ynglŷn â lefelau staffio.

Mae Papur mis Mai 2019 hefyd yn cofnodi (yn unol ag adran 25e o'r Ddeddf) nifer yr achosion difrifol pan ystyriwyd bod methiant i gynnal y lefel staff nyrsio yn ffactor. Roedd 11 o'r achosion hyn, bob un ohonynt yn godwm a arweiniodd at niwed difrifol neu farwolaeth.

Cynaliadwyedd y gweithlu Nyrsio

Ym mis Mehefin 2018, adroddwyd 288.56 o swyddi gwag nyrsys cofrestredig Band 5 i'r Bwrdd yn ysbytai Treforys, Castell-nedd Port Talbot, Tywysoges Cymru a Singleton. Mae'r papur yn datgan bod achosion difrifol wedi codi mewn meysydd lle ceir prinder staff.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- **Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 29 Mawrth 2018**
- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 25 Mehefin 2018**
- **Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 28 Mawrth 2019**
- **Papur y Bwrdd Adroddiad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 30 Mai 2019**
- **Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Ebrill 2018**
- **Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Mai 2019**
- **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru, Mai 2019**

Mae papur mis Mehefin 2018 y Bwrdd yn nodi ei bod yn annhebygol iawn y gellid recriwtio digon i gyflawni'r cynnydd llawn o bobl sydd wedi'u cofrestru sy'n ofynnol i fodloni'r cyfrifiadau staff nyrsio yn y dyfodol agos neu hyd yn oed y tymor byr. Fodd bynnag, mae'n drawiadol na wneir y datganiad hwn gan gyfeirio mewn unrhyw ffordd at strategaeth hirdymor neu weithgarwch recriwtio ac ystyriaeth o gamau posibl i gadw staff.

Mae'r chwe Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru wedi adrodd cynnydd mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19 a gwelir y cynnydd mwyaf yn Abertawe Bro Morgannwg, o £4 miliwn i £12.1 miliwn sef cynnydd o 52%.

Mae papur y Bwrdd hefyd yn nodi pwynt pwysig y gall unrhyw ddull gan y Bwrdd Iechyd i recriwtio llawer o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd o gymunedau lleol ansefydlogi'r gweithlu gofal cartref a chartrefi gofal yn wirioneddol, gan ei fod dan bwysau eithriadol eisoes. Byddai ansefydlogi'r sector hwn yn arwain at effaith andwyol sylweddol ar y system gyfan ac ar y gofal sydd ar gael i gleifion yn ein cymuned. Mae'n argymell model prentisiaeth i 'fagu' gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Ym mis Gorffennaf 2019 rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd o ran y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Nid yw hyn yn sôn o gwbl am strategaeth recriwtio gweithlu neu gadw staff ac nid oes unrhyw sôn am nyrsio. Mae'n nodi y cynhaliwyd proses ymgysylltu â grwpiau Byrddau Gwella Gwasanaethau ac unigolion pan nodwyd yr angen i recriwtio a sefydlogi'r gweithlu yn thema gyffredin. Wrth drafod y canfyddiad hwn, mae'r papur yn datgan nad yw'n glir a yw'r uchelgeisiau hyn wedi'u seilio ar anghenion, yn fforddiadwy nac yn gyflawnadwy ac y cynhelir rhagor o brofion ar hyn i archwilio modelau staffio eraill i gefnogi cynaliadwyedd. Mae'r amheuaeth uniongyrchol nad yw'r angen am ragor o staff neu fwy o gynaliadwyedd i'r gweithlu yn gais sydd wedi'i seilio ar angen yn drawiadol.

Mae angen i drefniadau cynllunio'r gweithlu gynnwys y cynllunio tymor byr a fforddiadwy ar hyn o bryd a chynllunio hirdymor i wneud y cynnydd i'r amodau delfrydol angenrheidiol i ddarparu gofal o safon i gleifion. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir y ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd, sy'n effeithio ar ei allu i ddarparu gweithlu cynaliadwy a all ddarparu gofal o safon dda i gleifion, yn hytrach na'u mewnoli'n anadweithiol fel cyfyngiad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cwestiynau i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd

1. **A oes gennych strategaeth cadw staff ar gyfer nyrsio?**
2. **Sut y caiff pryderon staff ynglŷn â lefelau staff isel eu dwyn i'r Bwrdd?**
3. **Sut ydych chi'n cefnogi staff sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith yn dilyn salwch hirdymor?**
4. **Sut y gallai Llywodraeth Cymru eich cefnogi i weithredu'r Ddeddf?**

Cynnydd o ran Gweithredu

Ym mis Ionawr 2018 cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Braf yw cael gweld gofynion y Ddeddf wedi'u hamlygu yn y ddogfen yn yr adran trosolwg strategol a chyd-destun. Hwn yw'r unig Gynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd i wneud hyn, sy'n arwydd cadarnhaol o ddealltwriaeth ac ymrwymiad y Bwrdd ar lefel gorfforaethol i gyflawni'r Ddeddf. Darperir Atodiad hefyd yn nodi'r wardiau sy'n berthnasol i adran 25b.

Ym mis Mai 2018 cyflwynwyd papur diweddaru i'r Bwrdd ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf. Mae'r papur yn edrych yn fanwl ar y 29 o wardiau y nodwyd eu bod yn berthnasol i adran 25b o'r Ddeddf. Mae'r papur yn nodi bod angen £0.27 miliwn o gyllid ychwanegol i fodloni Deddf Staff Nyrsio (Cymru). Mae'r cyllid hwn ar gyfer nyrsys cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ychwanegol, ond mae hefyd yn nodi bod angen cyllid i sicrhau bod pobl ar gael i gyflenwi cyfnodau mamolaeth a bod amser goruchwylio ar gael i reolwyr wardiau. Mae'n gadarnhaol nodi, yn wahanol i bapurau tebyg a gyflwynwyd i Fyrddau Iechyd eraill, nad oes tôn ymddiheuro nac awgrymiadau y gellid dod o hyd i ddulliau eraill o leihau costau. Mae'r papur yn glir bod angen y cynnydd hwn i gydymffurfio â'r Ddeddf ac i roi gofal o safon dda i gleifion ac mae'r costau ychwanegol a nodwyd felly i'r Bwrdd wedi'u nodi eisoes ar y cam hwn yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig mis Mawrth.

Ym mis Ionawr 2019 rhoddwyd diweddariad arall ar y Ddeddf i'r Bwrdd gan nodi datblygiad polisi Uwchraddio Staff Nyrsio a gwelliannau i'r system datix o adrodd pryderon ynghyd â datblygiad sgrym diogelwch wythnosol i adrodd am amrywiadau ar yr amserlenni a drefnwyd. Hefyd, nodwyd bod angen cynyddu nifer y staff mewn dwy ward yn benodol am gost o £102,000 oherwydd gweithgarwch cynyddol a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo hyn. Hefyd, codir y posibilrwydd y bydd costau staff ychwanegol o ganlyniad i weithgarwch ychwanegol yn ystod y gaeaf.

Ym mis Mai 2019 nododd yr adroddiad i'r Bwrdd ar y Ddeddf fod defnydd y Cyfleuster Aciwtedd Oedolion wedi'i ymestyn i wardiau mewn rhai ysbytai cymunedol a bod hyn wedi helpu i ail-gyfrifo lefelau staff mewn wardiau cymunedol. Mae hon yn fenter ragorol ac mae'n galonogol iawn ei gweld gan ei bod yn dangos dealltwriaeth ar lefel y Bwrdd o sut y mae cydymffurfio â'r Ddeddf yn fuddiol i ofal cleifion. Mae hefyd yn nodi y cynhelir cyfarfodydd misol gyda chynrychiolaeth o bob adran gan gynnwys staff ym maes gofal iechyd meddwl, paediatreg, cymunedol a gofal sylfaenol er mwyn cymryd camau i ymgysylltu a chydymffurfio ag adran 25a o'r Ddeddf. Mae hwn yn ddatblygiad hynod gadarnhaol ac fe'i croesewir yn fawr.

Mae'r adroddiad diweddaru hefyd yn nodi bod dwy ward yn berthnasol i adran 25b o'r Ddeddf, mae'r ddwy yn yr adran orthopedeg Dewisol wedi galw am gynnydd ychwanegol yn nifer y staff oherwydd gweithgarwch cynyddol yn sgil gwaith theatr 7 diwrnod yr wythnos am gost ychwanegol o £135,000.

Cynaliadwyedd y gweithlu Nyrsio

Mae diweddariad Ionawr 2018 ar Gynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd yn nodi nifer o gamau penodol a gymerwyd i wella trefniadau recriwtio nyrsys, megis annog Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i ymgymryd ag astudiaethau nyrsio a chefnogi nyrsys lleol i gael eu cofrestru. Mae'r papur hefyd yn archwilio effaith ymddeoliad fesul sector, gan nodi nyrsio cymuned, nyrsio mewn practis, cartrefi gofal ac ysbytai cymunedol yn feysydd pryder lle mae canran sylweddol o'r gweithlu yn debygol o ymddeol ar yr un pryd. Nodir mai Nyrsio a Bydwreigiaeth yw un o'r grwpiau proffesiynol â'r lefelau uchaf o salwch.

Mae'r chwe Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru wedi adrodd cynnydd mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19. Roedd gan Aneurin Bevan gynnydd gwariant o ryw £1.75 miliwn i £7.4 miliwn. Mae adroddiad y Bwrdd ym mis Ionawr 2018 yn nodi bod cartrefi gofal yn yr ardaloedd wedi dod i ddibynnu ar nyrsys asiantaeth.

Mae'n gadarnhaol nodi bod papur Cynllun Tymor Canolig Integredig mis Ionawr yn amlinellu gweithgareddau a gynlluniwyd i liniaru'r risgiau a nodwyd. Er enghraifft, nodir cynlluniau penodol i dargedu addysg nyrsio mewn cartrefi gofal ac i nyrsys mewn practisau. Ym maes gofal eilaidd nodir bod rhagnodi anfeddygol a datblygu swyddi uwch-ymarferwyr nyrsio.

Ym mis Mai 2018, mae papur y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i'r Bwrdd wedi nodi mai'r risg fwyaf i weithredu'r Ddeddf yn ymwneud â swyddi gwag Nyrsys Cofrestredig (RN). Ailadroddir y rhybudd hwn ym mhapur mis Ionawr 2019. Sefyllfa gyffredinol y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2019 oedd 330 o swyddi gwag Nyrsys Cofrestredig Cyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE).

	Swyddi Gwag RN WTE mewn wardiau penodedig yn A25B
Mai 2018	108.79
Ionawr 2019	174.44
Mai 2019	170.54

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Seiliwyd yr adroddiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- **Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 24 Ionawr 2018**
- **Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 21 Mawrth 2018**
- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 23 Mai 2018**
- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 23 Ionawr 2019**
- **Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 23 Ionawr 2019**
- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 22 Mai 2019**
- **Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru 10 Ebrill 2018**
- **Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru 25 Ebrill 2019**
- **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru, Mai 2019**

Ym mis Ionawr 2019 nododd y Bwrdd y camau canlynol i liniaru'r swyddi gwag hyn:

- Presenoldeb mewn digwyddiadau recriwtio, gan dargedu'n arbennig ardaloedd ar ffin Lloegr
- Llwybr gweithio'n hyblyg i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd gael y radd nyrsio
- Gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i gynorthwyo nyrsys tramor, sydd eisoes yn y DU â'r hawl i aros i fod yn nyrsys cofrestredig yn y DU
- Cefnogi'r rhaglen Dychwelyd i'r Gwaith

Ym mis Ionawr 2019 cafodd y Bwrdd y drafft terfynol o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2019/20 - 2021/22. Er y crynhowyd y camau a gymerwyd yn flaenorol i weithredu'r Ddeddf yn y ddogfen hon, nid oes unrhyw synnwyr, yn wahanol i Gynllun Tymor Canolig Integredig y flwyddyn flaenorol, i'r Ddeddf ysgogi gwelliant yn ansawdd y gofal i gleifion na'r gweithlu. Ni nodir camau i recriwtio a chadw nyrsys yn yr adran blaenoriaeth y gweithlu. Yn hytrach, crynhoir y camau a gymerwyd i wella trefniadau recriwtio nyrsys yn yr adran rheoleiddio proffesiynol o'r Cynllun. Mae'r newid hwn o ran cyflwyniad yn peri siom gan ei bod yn awgrymu nad yw cynllunio'r gweithlu nyrsio yn flaenoriaeth gyffredinol.

Mae'n gadarnhaol nodi bod y diweddariad ar y Ddeddf i'r Bwrdd ym mis Mai 2019 yn nodi camau penodol i gadw staff nyrsio megis 'trafodaethau aros' â staff, holiaduron gadael ac, yn hollbwysig, cyfleoedd i weithio'n hyblyg. Mae'r ail fenter yn arbennig o bwysig gan fod rheoli oriau gwaith yn ffactor hynod sylweddol ym mywydau nyrsys gan eu bod yn aml yn ofalwyr teulu. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn awgrymu hefyd bod cefnogi staff sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl salwch hirdymor mewn modd hyblyg yn fenter gwerth ei harchwilio.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cwestiynau i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd:

1. A ydych yn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?
2. Faint o welyau ychwanegol sydd yn y Bwrdd ar hyn o bryd? Sut y cyflawnir lefelau staff nyrsio diogel ar gyfer gwelyau ychwanegol?
3. Faint o swyddi gwag nyrsys cofrestredig sydd yn y Bwrdd?
4. Sut ydych chi'n bwriadu lleihau'r gwariant ar nyrsys asiantaeth?
5. A oes gennych strategaeth cadw nyrsys?
6. Sut y caiff pryderon staff ynglŷn â lefelau staff isel eu dwyn i'r Bwrdd?
7. Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i'ch helpu i weithredu'r Ddeddf?

Cwestiynau i Lywodraeth Cymru:

1. Sut y mae'r trefniadau mesurau arbennig yn monitro ac yn cefnogi'r Bwrdd i gydymffurfio â'r Ddeddf?
2. A fyddwch yn cynyddu nifer y myfyrwyr nyrsio yn unol â chais Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?
3. A fyddwch yn cefnogi lleoliad myfyrwyr nyrsio heb eu comisiynu yn unol â chais Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

Cynnydd o ran Gweithredu

Dywed brawddeg agoriadol Papur y Bwrdd ar 5 Ebrill 2018 "Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Bod yn Barod" mai diben y papur yw rhoi gwybod i'r Bwrdd am yr her sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd o ran recriwtio Nyrsys Cofrestredig gyda phwyslais penodol ar ein Hysbytai Cyffredinol Dosbarth. Nodir mai nifer y swyddi gwag nyrsys cofrestredig yn y Bwrdd Iechyd yw 500 WTE.

Mae'r papur yn sôn bod Cynllun Gweithredu i gyflawni'r cydymffurfio â'r Ddeddf wedi'i ysgrifennu ac y'i trafodir mewn 'Grŵp Diogelwch ac Effeithlonrwydd Nyrsio' sydd wedi'i sefydlu. Mae'r papur yn parhau trwy ddweud eu bod yn cydnabod na all y gweithlu Nyrsys Cofrestredig lenwi'r rota staff a gynlluniwyd yn gyson ar hyn o bryd ac yr ategir hyn gan welyau ychwanegol ar safleoedd acíwt.

Defnyddir y term 'gwelyau ychwanegol' yn yr un modd â'r term 'gwelyau gorlif' yn Hywel Dda lle mae'r Bwrdd Iechyd yn pennu lefel gwelyau/cleifion ar gyfer pob ward ac yn cyfrifo lefel staff nyrsio ddiogel a phriodol – ac wedyn yn ychwanegu nifer o welyau ychwanegol (h.y. cleifion ag aciwtedd amrywiol) gan wneud y cyfrifiad gwreiddiol yn amherthnasol.

Yn amlwg, nid yw'r arfer hwn yn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, y canllawiau statudol na chanllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru. Gwelir graddfa'r arfer hwn ym mhapur y Bwrdd sy'n nodi bod y 52 o welyau ychwanegol yn Ysbyty Wrecsam Maelor yn galw am 26 o Nyrsys Cofrestredig WTE ychwanegol a 20 o gynorthwywyr gofal iechyd arall i gefnogi'r cynnydd hwn mewn gweithgarwch.

Mae papur mis Ebrill 2018 yn nodi y bu cynnydd o 14.64% o 2016 hyd 2017 i achosion andwyol sy'n gysylltiedig â lefelau staff nyrsio.

Ym mis Tachwedd 2018 cafodd y Bwrdd ddiweddariad arall ar gydymffurfio â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Nodwyd yma fod cyfanswm o 38 o wardiau yn berthnasol i Adran 25b. Mae'r papur hefyd yn rhoi enghreifftiau i'r Bwrdd o pan fo asesiadau dyddiol wedi arwain at newidiadau staff.

Mae hefyd yn nodi bod niferoedd staff (heb ei nodi) wedi'u cynyddu yn Ward Cunlifffe a Ward Boney yn Ysbyty Maelor ac y cyflawnwyd y cynnydd angenrheidiol o 26 o Nyrsys Cofrestredig WTE ac 20 o gynorthwywyr gofal iechyd eraill i ymdrin â gwelyau ychwanegol yn y safle hwn. Mae'n nodi bod angen cynyddu nifer y nyrsys ar gyfer y 6 gwely ychwanegol yn ward Ffrancon (a fu yno ers 18 mis) er diogelwch y cleifion ac mae'n gofyn am gyllid ychwanegol.

Mae adroddiad y Bwrdd ar y Ddeddf o fis Mai 2019 yn nodi bod 44 o wardiau yn berthnasol i adran 25b y Ddeddf. Mae'n adrodd y bu 2 achos difrifol o niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty a 5 codwm a arweiniodd at niwed difrifol neu farwolaeth pan ystyriwyd bod y methiant i gynnal y lefel staff nyrsio yn ffactor.

Cynaliadwyedd y Gweithlu Nyrsio

Mae papur y Bwrdd ym mis Ebrill 2018 yn nodi bod 500 WTE o swyddi gwag nyrsys cofrestredig ar draws y sector gofal eilaidd. Mae hefyd yn nodi y gwariodd y Bwrdd Iechyd £2.9 miliwn ar gostau nyrsys asiantaeth o fis Hydref i fis Rhagfyr 2017. Mae'r chwe Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru wedi adrodd cynnydd mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth yn 2019 ac mae gwariant wedi cynyddu yn Betsi Cadwaladr o ryw £3 miliwn i gyfanswm o £12.9 miliwn.

Mae'n gadarnhaol bod y cyswllt strategol â datblygu'r gweithlu yn glir, a hynny'n wahanol i Fyrddau Iechyd eraill. Mae papur mis Ebrill 2018 yn nodi bod dull strategol o recriwtio a chadw yn cael ei ddatblygu gan y Grŵp Recriwtio Corfforaethol sydd newydd ei ffurfio ac sydd ag is-grwpiau ar gyfer pob proffesiwn ar lefel weithredol. Mae'n trafod y defnydd o frand newydd 'Hyfforddi, Gweithio, Byw – Gogledd Cymru'. Mae hefyd yn sôn am strategaeth Ddenu – ac yn gwahanu hyn yn ddefnyddiol oddi wrth recriwtio. Mae papur y Bwrdd yn nodi bod rhyw 170 o nyrsys yn cymhwyso bob blwyddyn trwy lwybr comisiynu Llywodraeth Cymru ac yn cael eu penodi i BIPBC. Fodd bynnag, yn anffodus mae'r papur yn nodi bod y niferoedd comisiynu addysg y gofynnodd BIPBC i'r Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu amdanynt yn parhau i arwain at fwlch sylweddol.

Mae hefyd yn archwilio posibiliadau recriwtio rhyngwladol a gwendidau'r broses hir a chymhleth hon gan amlinellu'r 35 o ymgeiswyr nyrsio presennol y mae'r Bwrdd yn gobeithio'u gweld o India. Mae hefyd yn amlygu'r llwybr Dychwelyd i Arfer gyda 28 o fyfyrwyr ar hyn o bryd. Argymhellodd y Bwrdd hefyd y gallai myfyrwyr nyrsio heb eu comisiynu ym Mhrifysgol Glyndŵr gael eu lleoli yn y Bwrdd Iechyd ond nid oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r fenter hon ac mae'r myfyrwyr hynny yn mynd yn hytrach i gael profiad gwaith yn GIG Lloegr.

Ym mis Hydref 2018 cafodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyngor Iechyd Cymuned ynglŷn â lefelau staff mewn ysbytai cymunedol. Mae'n datgan bod lefelau staff yn parhau i fod yn bryder gwirioneddol iawn wrth i'r pedwar ar ddeg o ysbytai cymunedol adrodd swyddi gwag hirsefydlog ar bob lefel (o gynorthwywyr gofal iechyd i Nyrsys Band 6). Cynhelir lefelau staff trwy ddefnydd helaeth o staff cronfa ac weithiau staff asiantaeth. Mae eu dadansoddiad o'r rhesymau sylfaenol dros hyn yn cynnwys salwch, straen ac ymddeoliad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Bod yn Barod 5 Ebrill 2018**
- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Bod yn Barod 10 Ebrill 2018**
- **Papur y Bwrdd Adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned ar Lefelau Staff mewn Ysbytai Cymunedol ac Adroddiad Defnydd Gwelyau y Bwrdd 15 Hydref 2018**
- **Papur y Bwrdd Ymateb y Bwrdd Iechyd i Adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned ar Ysbytai Cymunedol 15 Hydref 2018**
- **Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 1 Tachwedd 2018**
- **Papur y Bwrdd Adroddiad Cynnydd o ran y Cynllun Tymor Canolig Integredig 1 Tachwedd 2018**
- **Papur y Bwrdd Strategaeth Gweithlu 28 Mawrth 2019**
- **Papur y Bwrdd 2019 Adroddiad Blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 2 Mai 2019**
- **Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Ebrill 2018**
- **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru, Mai 2019**

Mae'r adroddiad yn parhau trwy ddweud bod perygl gwirioneddol yn parhau y bydd rhagor o welyau yn cau os na fydd lefelau staff yn cynyddu ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gellir colli wardiau cyfan. Mae rhai ysbytai yn gweithio ar lefel risg â'r lefelau isaf o staff yn enwedig gyda'r nos.

Yn groes i'r dull cadarnhaol i recriwtio nyrsys a nodwyd uchod o bapur y Bwrdd mis Ebrill 2018, mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r adroddiad Cyngor Iechyd Cymuned hwn yn peri siom. Mae'n nodi bod yr adroddiad yn amlygu materion cenedlaethol o ran recriwtio nyrsys cofrestredig ac yn parhau i ddweud bod BIPBC yn cydnabod na roddir gofal i'n cleifion gan ein staff nyrsio yn unig a bod angen yn gynyddol i ddefnyddio cymwyseddau ar draws ffiniau proffesiynol traddodiadol. Mae hyn yn bell o fod yn ymateb boddhaol i'r adroddiad. Mae'n amlwg o'r adroddiad y byddai cynyddu capasiti gwaith cymdeithasol a therapi yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn yr ysbytai cymunedol hyn ond nid yw'n dileu'r angen am staff nyrsio. Mae rhan nyrs gofrestredig mewn gwella canlyniadau cleifion a chyfraddau marwoldeb wedi'i seilio ar dystiolaeth ac mae adran 25a o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd sicrhau bod digon o staff nyrsio ym mhob maes i sicrhau gofal nyrsio sensitif.

Ym mis Tachwedd 2018 y gyfradd swyddi gwag nyrsys cofrestredig yn y Bwrdd Iechyd oedd 283.99 WTE.

Ym mis Mawrth 2019 gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r Strategaeth Gweithlu gyntaf. O dan y pennawd heriau allweddol mae'r strategaeth yn nodi bod nifer sylweddol o swyddi gwag staff nyrsio yn yr ysbytai ac ar draws arbenigeddau. Mae risg uchel yn sgil cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Staff Nyrsio ac nid yw'n effeithiol o ran cost yn y model presennol.

Mae'r syniad bod cydymffurfio â'r gyfraith yn ddewisol yn drawiadol. Mae blaenoriaethu cost dros ddiogelwch cleifion neu ansawdd gofal yn ddi-chwaeth. Mae'r diffyg dealltwriaeth y bydd cydymffurfio â'r Ddeddf yn arwain at welliant yn ansawdd gofal cleifion ac mewn llesiant a chyfraddau cadw staff yn peri siom hynod. Mae'r sylwadau strategol ynglŷn â recriwtio nyrsys

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cwestiynau Allweddol i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

1. A yw'r sefydliad gofal critigol yn cydymffurfio bellach â Safonau Cymru o ran Gofal Critigol? A fu cynnydd mewn lefelau staff nyrsio yn y maes hwn?
2. A yw'r 13 o wardiau'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl yn cydymffurfio bellach â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)? A fu cynnydd yn lefelau staff nyrsio yn y maes hwn?
3. A yw'r Uned Asesu Plant wedi cadarnhau cyllid cynaliadwy ar gyfer ei staff nos erbyn hyn?
4. Faint o swyddi gwag nyrsys cofrestredig sydd yn y Bwrdd?
5. Pa ganlyniadau y gellir eu dangos yn sgil y cynllun cadw nyrsys?
6. Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i'ch helpu i weithredu'r Ddeddf?

Cynnydd o ran Gweithredu

Ym mis Mai 2018 mae papur y Bwrdd sy'n adrodd ar weithredu'r Ddeddf yn nodi bod y Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y gweithredu ers mis Ionawr 2016. Mae'r papur yn nodi cyfranogiad gweithredol prif nyrsys wardiau yn y broses weithredu ac y croesewir hyn. Mae'r papur yn nodi'n glir y wardiau sy'n berthnasol i adran 25b a'u sefydliadau. Datblygiad cadarnhaol arall i wella gofal cleifion yw y nodir bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Swyddog y Gymraeg ynglŷn â gweithredu – yr unig Fwrdd Iechyd i nodi hyn.

Nid yw papur mis Mai 2018 yn nodi bod gofal critigol yn risg arbennig o ran cydymffurfio ag Adran 25a pan nad yw'r sefydliad yn bodloni Safonau Cymru o ran Gofal Critigol.

Mae'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl hefyd yn nodi bod 13 o wardiau lle nad yw'r sefydliad wedi'i gytuno oherwydd bod gan bob maes un person cofrestredig ar ddyletswydd am 12 awr yn y nos, felly ni all y person cofrestredig hwn adael y ward i gael egwyl".

Mae papur y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018 yn parhau i nodi na ellir cymeradwyo'r sefydliad nyrsio ar gyfer y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl gan eu bod yn parhau i fethu â chydymffurfio ag adran 25(a) y Ddeddf". Nodir bod y Bwrdd Clinigol yn adolygu lefelau staff o ddydd i ddydd gan symud staff yn ddyddiol. Mae'r papur yn awgrymu y dylid atgoffa'r Bwrdd Clinigol pe byddai'r holl staff mewn swydd, ni fyddai nyrsys yn cael eu gorweithio.

Mae papur mis Tachwedd yn parhau trwy nodi'n union pa wardiau sy'n berthnasol i 25B sydd wedi newid eu sefydliad o ganlyniad i'r broses adolygu wrth i sawl ward ychwanegu nyrs gofrestredig (RN) yn ystod sifftiau cynnar yn ystod yr wythnos.

Mae papur y Bwrdd yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi briff gweithredol dyddiol pan fo Uwch Nyrsys a Nyrsys Arweiniol a staff gweithredol yn cwrdd i drafod trefniadau staff ar draws wardiau. Caiff y penderfyniadau a wneir yn y cyfarfod hwn eu hanfon drwy e-bost i'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol pan ellir uwchgyfeirio unrhyw bryderon ar unwaith. Rhoddir diweddariad statws ar gyfer y cyfnod 24 awr gan y Byrddau Clinigol yn y prynhawn.

Mae Papur y Bwrdd adroddiad sicrwydd ansawdd, diogelwch a phrofiad y Bwrdd clinigol iechyd meddwl o fis Mawrth 2019 hefyd yn nodi nad yw wardiau yn y maes hwn yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch oherwydd na all staff gael egwyl i fwyta i ffwrdd o'r ward a bod cyfyngiadau ariannol yn atal trefniadau recriwtio rhagor o staff. Mae hefyd yn nodi bod lefelau uchel o salwch a

chwynion o fwlio yn broblem. Ac eto er gwaethaf hyn, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad difeddwl bod recriwtio nyrsys yn dda yn y maes hwn oherwydd bod staff nyrsio wedi'u cefnogi'n dda ac felly nid oedd unrhyw faterion recriwtio nyrsys i'r Bwrdd Clinigol. Ymddengys fod hyn yn gasgliad eithaf anarferol sy'n groes i holl adroddiadau eraill y Bwrdd ac yn wir adrannau o'r un adroddiad.

Ym mis Mai 2019 mae Papur y Bwrdd ar Lefelau Staff Nyrsio unwaith eto yn nodi nad yw wardiau o dan y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r Ddeddf o hyd. Mae hyn yn cael ei reoli trwy adolygu lefelau staff yn ddyddiol a'r Bwrdd clinigol yn adrodd eu bod yn ystyried ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn.

Codir pryder newydd nad oes gan yr Uned Asesu Plant gyllid mwyach i gefnogi trefniadau staffio'r gwasanaeth dros nos, felly ni ellir cymeradwyo cydymffurfiaeth mwyach.

Braf yw cael nodi bod adroddiad mis Mai 2019 ar Ddiogelwch Cleifion, Ansawdd a Phrofiad yn nodi bod arweinyddiaeth ragorol ar wardiau yn nodwedd a welir mewn llawer o adroddiadau arolwg nas cyhoeddwyd. Mae Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn rhan annatod o unrhyw dîm nyrsio llwyddiannus a chanfu'r adroddiadau arolwg fod Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn arwain datblygiad gwybodaeth cleifion, asesiadau gofal y geg ac yn gallu cael hyfforddiant nyrsio os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cododd ymweliad gan Arolygiaeth Iechyd Cymru â'r uned gofal Asesu Meddygol ym mis Mawrth 2019 bryderon ynglŷn â lefelau staff ac mae adroddiad mis Mai 2019 yn nodi y cymerwyd camau ar unwaith i gynyddu lefelau staff fel dull dros dro.

Mae'n galonogol gweld tystiolaeth ym mhapurau'r Bwrdd o ddull cadarn o weithredu'r Ddeddf yn onest ac yn dryloyw yn yr heriau a amlinellwyd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, cymerir camau clir i wella. Er enghraifft mae adroddiad Lefelau Staff Nyrsio mis Mai 2019 yn nodi mai un o'r heriau ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru yw sut i gofnodi i ba raddau y mae staff nyrsio wedi'i gyflenwi a chofnodi'r camau lliniaru a gymerir ar y lefel ronynnog hon. Mae ffurflen yn cael ei threialu ar hyn o bryd yn y cyfarfod dyddiol i gofnodi amrywiadau o'r amserlen.

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- Papur y Bwrdd Cynllun Tymor Canolig Integredig 29 Mawrth 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion, Ansawdd a Phrofiad 31 Mai 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad Lefelau Staff Nyrsio – 31 Mai 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 26 Gorffennaf 2018
- Papur y Bwrdd Newidiadau'r Ddeddf Staff Nyrsio 29 Tachwedd 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 29 Tachwedd 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 31 Ionawr 2019
- Papur y Bwrdd Blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 31 Ionawr 2019
- Papur y Bwrdd Adroddiad Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 28 Mawrth 2019
- Papur y Bwrdd Adroddiad sicrwydd ansawdd, diogelwch a phrofiad y bwrdd clinigol iechyd meddwl i'r Bwrdd 28 Mawrth 2019
- Papur y Bwrdd Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion, Ansawdd a Phrofiad 30 Mai 2019
- Papur y Bwrdd Deddf Staff Nyrsio 30 Mai 2019
- Papur y Bwrdd Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion, Ansawdd a Phrofiad 25 Gorffennaf 2019
- Papur y Bwrdd Cynllun Tymor Canolig Integredig 25 Gorffennaf 2019
- Llythyr gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol i Gyfarwyddwr Nyrsio RCN Cymru Ebrill 2019
- Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru, Mai 2019

Cynaliadwyedd y Gweithlu Nyrsio

Mae'r cynllun tymor canolig integredig drafft a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018 yn nodi bod y BIP wedi rhoi blaenoriaeth uchel i gynaliadwyedd nyrsio ar ei agenda gweithlu, o ystyried y diffyg cenedlaethol a gydnabyddir o nyrsys cofrestredig. Mae'r ddogfen yn cyfeirio hefyd at nifer o brosiectau nyrsio megis 'Prosiect 95%' 'Prosiect Buddion Nyrsys' a'r 'Prosiect Cefnogi Staff Dros Dro yn Effeithiol'. Er na roddir unrhyw wybodaeth am ganlyniadau'r prosiectau hyn o ran gwella cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio, mae'n dda cael gweld tystiolaeth glir o ymgais y Bwrdd Iechyd i wella hyn.

Ym mis Tachwedd 2018, roedd 237.31 o swyddi gwag ymhlith nyrsys cofrestredig Band 5 ar draws y 4 Bwrdd clinigol.

Mae'r chwe Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru wedi adrodd cynnydd mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19, ac yn BIP Caerdydd a'r Fro gwelwyd cynnydd yn y gwariant o ryw £2.5 miliwn i gyfanswm o £9.6 miliwn.

Mae papur mis Tachwedd 2018 y Bwrdd ar y Ddeddf yn ystyried hefyd yr angen i wella cyfraddau cadw'r gweithlu nyrsio. Mae'n rhoi manylion cliriach o'r gweithgareddau yn rhan o 'Prosiect 95%' megis cyfweliadau ymadael, cyflwyno trafodaethau 'aros' a cheisio hwyluso prosesau trosglwyddo staff yn fewnol. Mae hyn yn galonogol a rhoddir mwy o fanylion am weithgareddau cadw nag unrhyw Fwrdd Iechyd arall yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a oes unrhyw ganlyniadau cadarnhaol o'r gweithgareddau hyn.

Ym mis Ionawr 2019 mae papur y Bwrdd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cyfeirio at Gynllun Cadw Nyrsys gan awgrymu bod pwyslais strategol clir i'r gweithgareddau hyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Cwestiynau i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

1. Faint o swyddi gwag nyrsys cofrestredig sydd yn y Bwrdd?
2. A oes gennych strategaeth gweithlu i wella cyfraddau cadw nyrsys?
3. Sut y caiff pryderon staff ynglŷn â lefelau staff eu dwyn i'r Bwrdd?
4. A yw wardiau yn ysbyty Tywysoges Cymru yn cydymffurfio bellach ag adran 25b o'r Ddeddf?
5. Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i'ch helpu i weithredu'r Ddeddf?

Defnyddir y teitl "Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf" yn gyson yn yr adroddiad hwn oherwydd y cyfnod a archwiliwyd ac i osgoi dryswch.

Cynnydd o ran Gweithredu

Ym mis Mawrth 2018 cyflwynwyd papur diweddaru ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i'r Bwrdd. Nododd y papur fod y Bwrdd Iechyd yn fodlon ar y cyfan ar ei sefydliadau a gyllidebwyd ar draws ei wardiau meddygol a llawfeddygol. Yr eithriad trawiadol oedd statws goruchwylio rheolwyr wardiau. Roedd gan reolwyr ward yng Nghwm Taf 50% yn unig o statws goruchwylio ar y pryd a gofynnwyd am £400,000 arall i gyflawni statws goruchwylio llawn, a fyddai'n caniatáu am oruchwyliaeth glinigol a chyfrifoldebau rheoli.

Ym mis Mehefin 2018 cyflwynwyd ail adroddiad ar gydymffurfio â'r Ddeddf i Fwrdd Cwm Taf. Nodir bod 20 o wardiau yn berthnasol i adran 25b o'r Ddeddf erbyn hyn. Nododd yr adroddiad unwaith eto nad oedd gan Reolwyr Wardiau statws goruchwylio a gwnaeth ail gais am £400,000 o gyllid ychwanegol â'r nod o gyflawni hyn erbyn 2019/20. Mae'n peri pryder bod union yr un cais wedi'i ailadrodd i'r Bwrdd 3 mis yn ddiweddarach.

Fodd bynnag, yn llawer mwy difrifol yw'r datganiad yn yr adroddiad, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, na fyddai Cwm Taf yn gwneud cynlluniau i nodi'r niferoedd nyrsio sydd eu hangen i gydymffurfio â'r Ddeddf nac yn ceisio recriwtio'r niferoedd hynny. Mae'r adroddiad yn nodi y cytunwyd y byddai unrhyw gynnydd i'r gweithlu Nyrsys Cofrestredig ar hyn o bryd yn gwbl academig oherwydd bod y ffactor swyddi gwag o'r fath na fyddai'n bosibl recriwtio digon yn yr amser priodol a fyddai o reidrwydd yn effeithio ar feysydd wardiau. Mae'r diffyg diddordeb amlwg a ddangoswyd ynglŷn â chydymffurfio â'r Ddeddf neu wella ansawdd gofal yn syfrdanol. Ni wneir unrhyw gysylltiad ag unrhyw gynlluniau gweithlu tymor hwy ac ni ddangosir unrhyw ddealltwriaeth y byddai angen cyfrifo ffigurau'r gweithlu delfrydol beth bynnag mewn cynlluniau recriwtio hirdymor.

Mae adroddiad 29 Tachwedd 2018 i'r Bwrdd yn rhoi diweddariad arall ar gynnydd. Mae'n datgan y rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ganiatâd ar gyfer y buddsoddiad o £400,000 i wneud rheolwyr wardiau yn swydd oruchwylio ar 21 Tachwedd 2018 wyth mis ar ôl i'r cais gwreiddiol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018.

Mae'r papur yn cadarnhau'r sefyllfa bod 20 o wardiau yn berthnasol i adran 25b a bod trefniadau i gynnal 'sgrymiau diogelwch' ddwywaith y dydd ar waith i adolygu a chofnodi lefelau staff.

Mae papur y Bwrdd ar 29 Tachwedd yn parhau wedyn i amlinellu penderfyniad a wnaed eisoes yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar

21 Tachwedd i gefnogi "opsiwn 3". Mae "Opsiwn 3" yn awgrymu y dylai'r Bwrdd gynnal ei broses adolygu ei hun, gan fuddsoddi unrhyw adnoddau yn wardiau problemus. Dylid nodi nad yw'r papur yn rhoi gwybodaeth am fanylion opsiwn 1 na 2 ac eithrio cyfeirio atynt fel 'gwneud dim' a 'cyllido'n llawn'.

Ar 9 Ionawr 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd y byddai statws uwchgyfeirio y Bwrdd Iechyd yn cynyddu o 'drefniadau arferol' i 'fonitro uwch'. Nododd y Gweinidog Iechyd mai diffyg cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yw un o'r ffactorau a gyfrannodd at y penderfyniad hwn.

Yn ffodus, mae tôn Papur y Bwrdd a gyflwynwyd ar 30 Ionawr 2019 yn wahanol i hwnnw yn y diweddariadau cynnar. Mae'n nodi'n glir nad yw'r Lefelau Staff Nyrsio a gyfrifwyd wedi'u cymhwyso i'r 20 o wardiau meddygol a llawfeddygol ers i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Ebrill 2018. Mae'n parhau trwy ddweud bod angen camau brys i fynd i'r afael â'r mater a godwyd ac y bydd angen cynnydd o 55.5 o nyrsys cofrestredig WTE a 59.7 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd WTE am gost o £4.0 miliwn - £4.5 miliwn (yn dibynnu ar y man gwerthu) yn yr 20 o wardiau yn y Bwrdd Iechyd.

Braf yw nodi bod papur y Bwrdd a gyflwynwyd ym mis Mai 2019 yn adrodd y cyflawnwyd cydymffurfiaeth â'r Ddeddf trwy nodi:

- bod lefelau staff nyrsio yn y meysydd hyn wedi'u cynyddu
- bod y lefelau staff cywir wedi'u harddangos ger mynedfa'r wardiau
- bod lefelau staff yn cael eu cofnodi a'u hadolygu deirgwaith y dydd
- bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd a'i gofnodi i gynnal y lefelau staff cywir, a
- bod y prosesau i adolygu'r dangosyddion ansawdd craidd a restrir uchod wedi'u datblygu a'u gweithredu.

Sicrheir cydymffurfiaeth barhaus wrth gynnal lefelau staff nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd trwy gofnodi ac adolygu lefelau staff nyrsio deirgwaith y dydd. Caiff data ynglŷn â lefelau staff ar wardiau eu llwytho fesul sifft i ddarparu trosolwg o'r holl lefelau staff ym mhob maes.

Ar 17 Medi 2019 cyhoeddwyd Datganiad Cabinet ysgrifenedig sy'n cyfeirio at gyngor y Prif Swyddog Nyrsio bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Staff Nyrsio ac y gellid dileu'r agwedd hon ar y monitro uwch.

Nid yw'r papur yn nodi bod y Bwrdd yn gofyn am ragor o wybodaeth gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe i ymchwilio i gydymffurfiaeth â'r Ddeddf yn y 10 o wardiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru sy'n berthnasol i adran 25B o'r Ddeddf. Mae hefyd yn nodi nad yw'r wardiau anadlol a gynaecoleg a wardiau cleifion allanol meddygol yn ysbyty Tywysoges Cymru yn cydymffurfio â'r Ddeddf a bod angen cynnydd o 2.72 ac 1.79 o weithwyr cymorth gofal iechyd WTE yn y drefn honno.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Ym mis Gorffennaf 2019 ysgrifennodd y Prif Weithredwr at Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â chydymffurfio â'r Ddeddf. Dywed y llythyr fod y Bwrdd Iechyd yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r 5 ward meddygol a'r 5 ward llawfeddygol yn ysbyty Tywysoges Cymru, ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan BIP Bae Abertawe am wardiau meddygol i oedolion a wardiau llawfeddygol yn ysbyty Tywysoges Cymru.

Cynaliadwyedd y gweithlu Nyrsio

Ym mis Ionawr 2018 cyflwynwyd diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig i'r Bwrdd sy'n cynnwys cynllun i leihau nifer y staff trwy ddileu 251 o swyddi WTE yn ardal y Bwrdd Iechyd erbyn 2019/20. Fodd bynnag, bwriedir creu 63 o swyddi 'nyrsio' WTE ychwanegol ar gyfer yr un cyfnod. Wedi'u dynodi'n swyddi 'nyrsio' yn unig – felly gallai'r rhain fod yn Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn hytrach na nyrsys cofrestredig. Nodir yn benodol bod pwysau ariannol yn sgil gwariant ar nyrsys asiantaeth yn ffactor y mae angen ei reoli.

Mae'r chwe Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru wedi adrodd cynnydd mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19, ac mae gwariant Cwm Taf wedi cynyddu rhyw £1 miliwn i £6.9 miliwn.

Ym mis Mai 2018 mae diweddariad y Bwrdd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn rhestru 98 o swyddi gwag nyrsys cofrestredig WTE. Ysbyty Brenhinol Morgannwg yw'r safle â'r nifer mwyaf sylweddol o swyddi gwag nyrsys cofrestredig, sef 55 WTE ac yna Ysbyty'r Tywysog Siarl ag 20 WTE. Nid oes trafodaeth ynglŷn â strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â heriau recriwtio na chadw. Rhestrir gweithgareddau recriwtio nyrsys presennol, megis targedu'r garfan ddiweddaraf o fyfyrwyr nyrsio o Brifysgol De Cymru a recriwtio 9 o nyrsys Ffilipinaidd.

Ym mis Medi 2018 derbyniodd y Bwrdd bapur yn nodi'r dull o weithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019/22. Nid yw hyn yn sôn yn benodol am nyrsio ond mae'n sôn am wneud gweithlu cryfach a dull datblygu sefydliadol, gan gynnwys arddeisyfiad wrth recriwtio a chadw yn feysydd pwysig i'r Bwrdd.

Mae Diweddariad y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018 ar gydymffurfio â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn nodi'r nifer sylweddol o swyddi gwag nyrsys cofrestredig (RN) Band 5 a gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW).

Tachwedd 2018	Band 5 RN WTE	HCSWs WTE
Tywysog Siarl	29.92	9.49
Brenhinol Morgannwg	43.1	7.72
CYFANSWM	73.02	17.21

Nid oes unrhyw sôn yn y papur am unrhyw strategaeth i fynd i'r afael â recriwtio a chadw staff ond rhestrir nifer o weithgareddau, megis cyfweliadau ymadael. Awgrymir ystyried yr opsiwn i ddatblygu prentisiaethau Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.

Ym mis Ionawr 2019 cafodd y Bwrdd ddiweddariad arall a fersiwn ddrafft o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019/22. Yn y bennod ynglŷn â'r gweithlu yn y ddogfen Cynllun Tymor Canolig Integredig nodir bod nyrsio a bydwreigiaeth yn grŵp o staff sy'n peri pryder arbennig. Er enghraifft, nodir bod dwy ran o dair o'r staff nyrsio sy'n gweithio yn yr ysbytai cymunedol yn hŷn na 60 oed ac mae cyfleuster mudo AaGIC yn dangos bod Cwm Taf yn colli mwy o staff nyrsio nag y mae'n eu hennill. Mae hefyd yn nodi bod lefelau salwch ymhlith staff nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghwm Taf yn uwch na'r cyfartaledd ac mae gwariant ar staff asiantaeth yw un o'r heriau mwyaf.

Mae diweddariad y Bwrdd ym mis Ionawr 2019 ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (a gyflwynwyd yn yr un cyfarfod â'r ddogfen uchod) yn rhestru'r swyddi gwag cyflenwi gwasanaethau fel a ganlyn:

Ionawr 2019	Band 5 RN WTE	HCSWs WTE
Tywysog Siarl	22.52	7.37
Brenhinol Morgannwg	34.28	10.1
CYFANSWM	56.8	17.41

Ni nodir unrhyw strategaeth i ymdrin â'r materion hyn ac ni chyfeirir at strategaeth yn y naill bapur na'r llall. Yn hytrach, mae'r ddogfen Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi bod prinder nyrsys ledled y DU yn gyffredin ac mae'n parhau trwy restru nifer o weithgareddau recriwtio megis recriwtio 10 o nyrsys o'r Ynysoedd Philippines a 18 o fyfyrwyr MSc Arfer Proffesiynol o Brifysgol De Cymru ac ailadroddir y rhestr hon yn y diweddariad ar y Ddeddf.

Mae'n destun siom na wneir y cysylltiad rhwng lefelau staff isel, amodau gwaith gwael a chyfraddau cadw gwael. Ni fanteisir ychwaith ar fuddion y camau i gydymffurfio â'r Ddeddf o ran recriwtio a chadw staff i wella lefelau staff ac amodau gwaith.

Ym mis Mai 2019 cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/21. Mae adran yr adroddiad sy'n ymwneud â'r gweithlu yn rhestru unwaith eto y 10 o nyrsys o'r Ynysoedd Philippines a'r 18 o fyfyrwyr MSc sydd wedi'u recriwtio fel tystiolaeth o weithgarwch llwyddiannus. Mae hefyd yn nodi bod 164.92 o swyddi gwag nyrsio ymhlith nyrsys a bydwragedd, ac yn priodoli hyn i'r cynnydd sydd ei angen ar gyfer y Ddeddf. Mae'r agwedd negyddol ynglŷn â chydymffurfio â'r Ddeddf yn drawiadol. Ni nodir y canlyniadau cadarnhaol i ansawdd y gofal i gleifion a lles staff.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 31 Ionawr 2018
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 29 Mawrth 2018
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 29 Mawrth 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad ar gynnydd o ran y Cynllun Tymor Canolig Integredig 31 Mai 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 28 Mehefin 2018
- Papur y Bwrdd Dull Gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 27 Medi 2018
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 29 Tachwedd 2018
- Datganiad Cabinet Llywodraeth Cymru 9 Ionawr 2019
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 30 Ionawr 2019
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 30 Ionawr 2019
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 28 Mawrth 2019
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 30 Mai 2019
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 30 Mai 2019
- Llythyr gan y Prif Weithredwr Dros Dro i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon 5 Gorffennaf 2019
- Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Ebrill 2018
- Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru, Mai 2019
- Datganiad Cabinet Llywodraeth Cymru 17 Medi 2019

Rhestrir y swyddi gwag yn niweddariad y Bwrdd ym mis Mai 2019 ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) fel a ganlyn:

Mai 2019	Band 5 RN WTE	HCSWs WTE
Tywysog Siarl	39.59	0
Brenhinol Morgannwg	59.35	16.19
CYFANSWM	98.94	16.19

Mae'r adroddiad yn parhau trwy gofnodi'r galw cynyddol am nyrsys ac yn cysylltu hyn â gwariant ar staff asiantaeth. Mae'n nodi mai'r sbardunau yw lefelau salwch, goruchwylio, aciwtedd cleifion a swyddi gwag. Mae'n nodi y bydd staff nyrsio yn ennill mwy am sifft drwy asiantaeth. Unwaith eto, mae diffyg cysylltiad strategol yn yr adran hon â chynllun cadw staff yn nodedig. Os na ellir cynyddu cyflog, mae angen ystyried ffactorau eraill i wella morâl staff. Er enghraifft, dywed nyrsys yn gyson mai rheoli eu horiau gwaith yw'r mater pwysicaf iddynt. Mae'r gallu i gael gafael ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ddull cydnabyddedig o ddangos gwerth i staff.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cwestiynau Allweddol i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1. **Faint o welyau 'gorlif' a ddefnyddir yn y Bwrdd Iechyd erbyn hyn? Sut y caiff staff nyrsio eu dyrannu i'r gwelyau hyn a'u monitro?**
2. **Pryd bydd prif nyrsys yn derbyn statws goruchwylio llawn?**
3. **Pryd bydd y buddsoddiad yn y cynnydd llawn yn nifer y staff nyrsio y nodwyd bod ei angen i gydymffurfio ag adran 25b o'r Ddeddf?**
4. **A yw Hywel Dda yn bodloni'r Canllaw Clinigol cenedlaethol ar gyfer Strôc (2016) erbyn hyn?**
5. **Faint o swyddi gwag nyrsys cofrestredig sydd yn y Bwrdd bellach?**
6. **A oes gennych strategaeth recriwtio neu gadw ar gyfer nyrsio?**
7. **Sut y caiff pryderon staff ynglŷn â lefelau staff isel eu dwyn i'r Bwrdd?**
8. **Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i'ch helpu i weithredu'r Ddeddf?**

Cwestiynau Allweddol i Lywodraeth Cymru ynglŷn â Hywel Dda

1. **Sut y caiff statws 'ymyrraeth darged' Hywel Dda ei fonitro i gefnogi cynnydd o ran cydymffurfio â'r Ddeddf?**

Cynnydd o ran Gweithredu

Mae papur y Bwrdd ym mis Mawrth 2018 yn nodi ei bod yn debygol y bydd angen gwella staff nyrsio parhaol (Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd) yn y gweithlu nyrsio mewn meysydd wardiau oedolion acíwt o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf. Bydd angen dull targed i recriwtio Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ond mae'n debygol y bydd modd ei gyflawni yn y tymor byr. Bydd y nyrsys cofrestredig ychwanegol sydd eu hangen yn ychwanegu at y problemau swyddi gwag y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio arnynt ar hyn o bryd ac mae'n bosibl y bydd angen atebion interim i ystyried ffyrdd eraill o weithio. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi bod y papur yn nodi hefyd bod y Ddeddf yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad o les yn y gweithlu.

Mae papur y Bwrdd ym mis Mai 2018 yn nodi yr amcangyfrifir y bydd angen cynnydd o 163.65 o Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd WTE am gost o £4,995,475 miliwn ar draws y 32 o wardiau meddygol acíwt a llawfeddygol cynwysedig sydd wedi'u lleoli yn y 4 prif ysbyty yn y Bwrdd Iechyd. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn cysylltu'n benodol â chyfanswm o 41.36 o Nyrsys Cofrestredig WTE a 122.30 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd WTE.

Mae'r papur yn cyflwyno 3 opsiwn i'r Bwrdd: cyllido'n llawn y cynnydd staff sydd ei angen; ad-drefnu gwelyau yn briodol i nifer y nyrsys sydd ar gael; ac opsiwn 3 a argymhellir: cyflawni'r cynnydd sydd ei angen yn ystod 2018/19, mewn modd wedi'i flaenoriaethu ac â'r risgiau wedi'u hasesu. Neilltuwyd £2 miliwn at y diben hwn yn 2018/19.

Mae papur y Bwrdd ym mis Mai 2018 yn nodi nad yw'r un o'r swyddi rheolwyr wardiau yn Hywel Dda yn swydd goruchwylio. Golyga hyn nad oes unrhyw amser gwarchodedig ar gael i reoli na goruchwylio'n glinigol. Mae'r adroddiad yn nodi i gyflawni'r disgwyliad ychwanegol llawn a nodir yn y canllawiau statudol, ar draws y 32 o wardiau, bydd angen 19.20 o nyrsys cofrestredig WTE ychwanegol (am gost o £559,949) yn sefydliadau'r wardiau hyn.

Mae'r papur yn cydnabod na ellir gorbwysleisio effaith gadarnhaol y statws goruchwylio ar safonau clinigol gofal cleifion a pherfformiad sefydliadol. Fodd bynnag, er gwaethaf y gydnabyddiaeth hon nid yw'r papur yn pennu camau nac amserlen i gyflawni'r nod hwn.

Yn hytrach, mae'r papur yn hyrwyddo gwarchod deuddydd yr wythnos o amser prif nyrsys wardiau, gan nodi y cyfrifir mai cyfanswm y gost yr amcangyfrifir y gellid ei gyflawni yn ystod 2018/19 er mwyn cryfhau arweinyddiaeth glinigol yn y 32 o wardiau yw £300,143.

Mae'n drist gweld yr ystyrir y buddsoddiad truenus o fach yn ddigon i sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Mae papur mis Mai 2018 hefyd yn dwyn sylw'r Bwrdd i lefelau staff nyrsio yn yr uned strôc, gan nodi bod lefelau staff a gweithgareddau gweithredol yn yr holl unedau yn amrywio ac nid yw staff nyrsio na gweithwyr gofal iechyd

proffesiynol yn adlewyrchu'n llawn y Canllaw Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Strôc (2016) ar hyn o bryd. Amcangyfrifwyd mai 13.35 o nyrsys cofrestredig WTE yw'r cynnydd sydd ei angen i alluogi lefelau staff nyrsio adlewyrchu'r Canllaw Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Strôc (2016).

Mae'r papur yn dilyn trywydd tebyg ag ar gyfer materion pryder a godwyd yn flaenorol. Yn hytrach nag argymell cyllido'r cynnydd yn llawn, neu o leiaf cyflwyno llwybr clir i gyflawni'r lefel ddelfrydol, argymhellir buddsoddiad llawer llai – gan roi blaenoriaeth, yn yr achos hwn, i recriwtio gweithwyr cymorth gofal iechyd ychwanegol yn y maes hwn.

Braf yw gweld bod y papur hwn yn cydnabod pwysigrwydd swyddogaethau cefnogi i gyflawni'r perfformiad nyrsio gorau, megis Clerc y Ward, yr un sy'n cadw tŷ ar y ward.

Mae papur mis Gorffennaf 2018 yn nodi bod cynnydd yn parhau o ran y camau y cytunwyd arnynt ym mhapur mis Mai 2018. Mae hefyd yn nodi i'r Bwrdd bod proses o adolygiadau yn dechrau cael ei chyflwyno ym mhob maes gwasanaeth i ystyried cydymffurfiaeth ag adran 25a o'r Ddeddf.

Mae papur mis Tachwedd 2018 yn nodi y cyfathrebwyd dull fesul cam y Bwrdd o gydymffurfio ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd ar y pryd a derbyniodd ei gefnogaeth yn ei ymateb ysgrifenedig. Mae'r papur yn adrodd y gwnaed cynnydd trwy gyflogi 2.63 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd ychwanegol cyfwerth ag amser cyflawn (WTE) yn rhan o'r timau nyrsio ar y wardiau lle mae Adran 25B yn berthnasol ac yr awdurdodwyd recriwtio 19.6 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd WTE arall.

Mae papur mis Tachwedd 2018 yn cadarnhau y rhoddwyd cyllid i brif nyrsys wardiau i'w galluogi i gael dau ddiwrnod i gyflawni swyddogaethau goruchwylio ac mae pob ward lle mae Adran 25B yn berthnasol yn cynnwys cynnydd o 26.9% yn eu sefydliad ar gyfer yr holl staff nyrsio sydd wedi'u cynnwys ar yr amserlen a gynlluniwyd ac y cytunwyd arni. Mae hefyd yn nodi bod angen camau brys i greu system i gofnodi pryd y mae dyraniad staff gwirioneddol yn wahanol i hynny a amserlennwyd. Mae hwn yn bryder a godwyd gan Fyrddau eraill hefyd.

Mae adroddiad y Bwrdd ym mis Mai 2019 yn nodi bod prif nyrsys wardiau weithiau yn methu â chael dau ddiwrnod hyd yn oed i oruchwylio oherwydd yr heriau recriwtio ond yn aml yn gorfod camu i'r amserlen yn uniongyrchol. Mewn newyddion mwy cadarnhaol, mae'r adroddiad yn nodi y cytunwyd y byddai dwy swydd prif nyrs ward Band 6 AfC ym mhob ward â 18 o welyau neu fwy er mwyn atgyfnerthu arweinyddiaeth glinigol ac mae hyn wedi arwain at greu 13 o swyddi ychwanegol. Penodwyd 40 o weithwyr cymorth gofal iechyd WTE ar Fand 2 a 9 gweithiwr cymorth gofal iechyd WTE ar Fand 3.

Mae adroddiad 2019 yn nodi ar draws y Bwrdd Iechyd y bu 430 o achosion gofal cleifion (e.e. cwympo, briwiau pwyso) lle na chynhaliwyd y lefel staff nyrsio (a 1474 arall lle na roddwyd unrhyw wybodaeth). O'r 430 o achosion hyn, barnwyd bod lefelau staff isel wedi cyfrannu at 108 ohonynt.

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- Papur y Bwrdd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Parodrwydd Sefydliadol 29 Mawrth 2018
- Papur y Bwrdd Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 31 Mai 2018
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 26 Gorffennaf 2018
- Papur y Bwrdd Diweddariad ar weithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 29 Tachwedd 2018
- Papur y Bwrdd Adroddiad Blynyddol ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 30 Mai 2019
- Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Ebrill 2018
- Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Ebrill 2019
- Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru, Mai 2019

Ar wardiau sy'n berthnasol i adran 25b o'r Ddeddf, cafwyd 111 o achosion gofal cleifion pan na chynhaliwyd lefelau staff nyrsio (a 373 lle na roddwyd unrhyw wybodaeth). O'r 111 o achosion, barnwyd bod lefelau staff isel wedi cyfrannu at 43 ohonynt.

Defnyddio Gwelyau Gorlif

Mae Hywel Dda yn defnyddio'r term 'gwelyau gorlif' i ddisgrifio cleifion ychwanegol mewn wardiau, am gyfnod tymor byr mewn theori. Dywed papur y Bwrdd ym mis Mai 2018 fod y gwelyau gorlif hyn yn dechrau cael eu defnyddio'n aml neu weithiau'n barhaus ac mae'n cydnabod bod angen cynyddu lefelau staff nyrsio yn yr achosion hyn. Dywed ei bod yn arbennig o wir yn Ysbyty'r Tywysog Phillip (Wardiau 4, 5 a 7) lle mae cyfanswm o 19 o welyau 'gorlif' yn y tair ward hyn wedi'u defnyddio'n barhaus ers sawl mis. Fodd bynnag, nid yw papurau diweddarach y Bwrdd sy'n rhoi diweddariad ar y Ddeddf yn cyfeirio at gynnydd yn y maes hwn.

Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Ym mis Tachwedd 2018, roedd y swyddi gwag ar wardiau sy'n berthnasol i adran 25B o'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) fel a ganlyn:

Lleoliad y swyddi gwag	WTE RN	WTE HCSW
Ysbyty Bronglais	40.16	0
Ysbyty Glangwili	20.63	17.31
Ysbyty Tywysog Phillip	7.68	12.32
Ysbyty Llwynhelyg	31.56	15.89
CYFANSWM	**99.63**	**45.52**

Mae'r gyfradd swyddi gwag gyffredinol ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan yn debygol o fod llawer yn uwch. O'r 6 Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, roedd gan Hywel Dda y cynnydd lleiaf i wariant ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19 o 1.6 y cant (£0.2 miliwn) ond y gwariant uchaf yn gyffredinol, sef £14.3 miliwn.

Papur y Bwrdd ym mis Mai 2019 ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio yw'r papur cyntaf sy'n ymdrin â'r cyd-destun recriwtio neu gadw ehangach. Mae'n rhestru mentrau megis hysbysebu swyddi ar y cyfryngau cymdeithasol megis Facebook ac mae'n nodi y gallent arwain at hyd at 10 mynegiant o ddiddordeb yr wythnos gan nyrsys cofrestredig (er na nodir nifer y penodiadau yn sgil hyn). Mae hefyd yn nodi rhaglen brentisiaeth "Made in Hywel Dda" a all arwain at radd nyrsio cofrestredig. Mae hefyd yn rhestru gweithgareddau recriwtio a chadw amrywiol fesul ysbyty. Er ei bod yn dda gweld y mentrau hyn, ymddengys nad yw dull strategol o recriwtio a chadw nyrsys wedi'i ddatblygu hyd yn hyn, neu heb ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cwestiynau Allweddol i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

1. **Sut y caiff y Bwrdd sicrwydd o gydymffurfio â'r Ddeddf ym Mhowys?**
2. **Sut y caiff pryderon staff ynglŷn â lefelau staff isel eu dwyn i'r Bwrdd?**
3. **A oes gan bob prif nyrs ward statws goruchwylio llawn ym Mhowys?**
4. **Faint o swyddi gwag nyrsys cofrestredig sydd yn y Bwrdd?**
5. **A oes gennych strategaeth cadw nyrsys?**
6. **Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i'ch helpu i weithredu'r Ddeddf?**

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y dogfennau canlynol:

- **Papur y Bwrdd Cynllun Tymor Canolig Integredig 31 Ionawr 2018**
- **Papur y Bwrdd Cynllun Tymor Canolig Integredig 21 Mawrth 2018**
- **Papur y Bwrdd Cydymffurfio Sefydliadol â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 30 Mai 2018**
- **Papur y Bwrdd Cynllun Tymor Canolig Integredig 28 Tachwedd 2018**
- **Papur y Bwrdd Cynnydd Tair Blynedd y Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Adroddiad Blynyddol Terfynol 28 Tachwedd 2018**
- **Papur y Bwrdd Cynllun Tymor Canolig Integredig 30 Ionawr 2019**
- **Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Powys i Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Nyrsio Cymunedol a Nyrsio Ardal, Mawrth 2019**
- **Llythyr gan y Prif Weithredwr i Gyfarwyddwr RCN Cymru Mai 2018**

Cynnydd o ran gweithredu

Mae adran 25A o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru bod yn rhaid iddynt ddarparu "digon o nyrsys er mwyn rhoi amser i nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif" pan fyddant yn darparu neu'n comisiynu gwasanaethau nyrsio. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Nid yw adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf yn berthnasol i'r Bwrdd Iechyd gan nad oes unrhyw wardiau meddygol acíwt i oedolion a llawfeddygol ym Mhowys.

Mae papur y Bwrdd ym mis Ionawr ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi bod Powys yn ystyried y Ddeddf.

Mae papur y Bwrdd ym mis Mai 2018 ar Gydymffurfiaeth Sefydliadol â'r Ddeddf yn disgrifio lefelau staff yn fater dadleuol gan honni bod y lefel orau o staff yn gwestiwn anodd ei ateb. Mae'n nodi bod y Bwrdd Iechyd yn Cydymffurfio â Birthrate Plus ac yn cydymffurfio o ran y gymhareb bresennol ar gyfer llwyth achosion Ymwelwyr Iechyd. Mae'n nodi bod staff mewn ysbytai cymuned wedi'u hadolygu a bod un Brif Nyrs oruchwylio gyfwerth ag amser cyflawn (ni nodir nifer y wardiau y mae'r trefniant hwn yn eu cynnwys) ac adolygir lefelau staff wardiau a'u hadrodd yn ddyddiol, wedi'u rheoli gan Reolwyr y Tîm Clinigol Integredig. Cofnodir lefelau staff a'r cymysgedd sgiliau yn agored ar fwrdd gwybodaeth gweledol ar bob ward.

Mae'n rhoi gwybod i'r Bwrdd bod proses yn cael ei datblygu i roi sicrwydd i'r Bwrdd o gydymffurfio yn y dyfodol ag Adran 25A. Fodd bynnag, ni wnaed adroddiad arall i'r Bwrdd ar y Ddeddf erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019.

Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae papur y Bwrdd ym mis Ionawr ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi pwysau sylweddol yn y gweithlu nyrsio o ganlyniad i anawsterau recriwtio nyrsys cofrestredig. Mae'n adrodd na fu digwyddiadau recriwtio lleol yn arbennig o lwyddiannus. Mae'n sôn am fuddion posibl dechrau llwybr prentisiaeth i nyrsio ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ac yn ddiddorol, ni fu sylwadau ynghylch cyflwyniad cenedlaethol y broses symleiddio ar gyfer myfyrwyr nyrsio (lle byddai myfyrwyr nyrsio graddedig yn cael eu penodi i swyddi penodol mewn Byrddau Iechyd) sydd wedi'u croesawu gymaint gan Fyrddau Iechyd eraill, yr un mor ddefnyddiol ym Mhowys oherwydd yr angen am ddull mwy cyffredinol yn y lleoliad gwledig.

Mae adroddiad y Bwrdd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd ym mis Tachwedd 2018 yn nodi bod recriwtio a chadw staff yn flaenoriaeth ond ni roddir rhagor o fanylion.

Ym mis Tachwedd 2018 cyflwynwyd Papur y Bwrdd ar adroddiad terfynol y Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth i'r Bwrdd hefyd. Nid yw'r papur yn sôn am y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio nac am faterion recriwtio a chadw staff nyrsio. Nodir mai "Workforce Futures" yw un o'r amcanion.

Ym mis Ionawr 2019 mae papur y Bwrdd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i nodi bod gweithlu sefydlog ar gyfer Powys yn flaenoriaeth a bod datblygu dulliau prentisiaeth lleol yn parhau ond nid oes sôn am ddatblygiadau nyrsio penodol.

Yn rhan o dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Nyrsio Cymuned a Nyrsio Ardal, adroddodd y Bwrdd Iechyd fod **79.5 o swyddi gwag Nyrsys Cofrestredig cyfwerth ag amser llawn** ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan.